# Vortioxetine i drin pyliau dwys o iselder

Tachwedd 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Vortioxetine (Brintellix) fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd yn cael pwl dwys o iselder am y tro cyntaf neu'n rheolaidd, os nad yw'r pwl presennol wedi ymateb i 2 gyffur gwrth-iselder.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os ydych yn cael pwl dwys o iselder, a bod eich meddyg yn credu mai vortioxetine yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG. Dylai vortioxetine fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os ydych yn cymryd vortioxetine yn barod ond nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i'w gymryd nes i chi a'ch meddyg benderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd vortioxetine oherwydd ei fod yn debyg o ran effeithiolrwydd i driniaethau eraill, ac yn gost effeithiol o'i gymharu â gwrth-iselyddion trydydd cynnig.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Mae pwl dwys o iselder yn gyfnod o symptomau o anhwylder iselder dwys. Mae'r symptomau hyn yn cynnwys teimladau o dristwch, anobaith ac euogrwydd neu hunan-barch−isel, yn ogystal â blinder, diffyg diddordeb mewn bywyd ac anhawster canolbwyntio. Efallai na fydd pobl sydd yn cael pwl dwys o iselder yn gallu bwyta neu gysgu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, gallent ddod yn gwbl encilgar ac efallai y byddant yn meddwl

am ladd eu hunain neu'n ceisio lladd eu hunain. Gall y pyliau bara rhwng wythnosau a blynyddoedd a gall ddychwelyd.

Mae vortioxetine (Brintellix) yn gyffur gwrth-iselder sy'n trin symptomau iselder. Mae'n gweithio drwy gynyddu lefelau cemegyn o'r enw serotonin yn yr ymennydd.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Cynghrair Iselder, 0207 407 7584, www.depressionalliance.org
- MIND, 0208 519 2122, www.mind.org.uk
- SANE, 0300 304 7000, www.sane.org.uk
- Rethink Mental Illness, 0300 500 0927, www.rethink.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1741-9